# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-03-08)

**SLC101**

**Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth**

**O dan Reol Sefydlog 15.2 bydd y Cynulliad yn cael ei wahodd i roi sylw arbennig i'r offeryn canlynol.**

### Enw: Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008

Mae Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008 yn gwneud darpariaeth gyffredinol o ran Cymru ynghylch cosbau penodedig am dramgwyddau penodol o dan Ran 3 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd1991.

**Gweithdrefn: Negyddol**

### Nodwyd y pwyntiau canlynol i fod yn destun adroddiad o dan Reol Sefydlog 15.2.

Mae rheoliad 5(1) yn darparu ar gyfer cyflwyno hysbysiadau electronig yn unol â'r amodau a nodir yn rheoliad 5(3). Un o'r amodau yn y testun Saesneg yw "the notice is available to that person to no lesser extent than it would be if given by means of a notice in printed form". Mae'r testun Cymraeg cyfatebol yn nodi "o leiaf i'r un graddau â phe bai wedi ei roi iddo drwy gyfrwng hysbysiad ar ffurf brintiadwy". Ystyr "brintiadwy" yw "printable", yn hytrach na "printed" a chan y byddai modd printio cyfathrebiad electronig fel arfer, mae'r ddarpariaeth yn ddiystyr. Y term cywir fyddai "brintiedig". [Rheol Sefydlog 15.2(vi) a (vii)]

### Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

**Ionawr 2008**

### Rheoliadau Gwaith Stryd (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2008

Mae'r Llywodraeth wedi dweud ei bod yn derbyn y pwyntiau adrodd a grybwyllir uchod a'i bod yn bwriadu cywiro'r testun Cymraeg drwy wneud Rheoliad diwygio byr cyn gynted ag y bo modd ond p'run bynnag heb fod yn hwyrach na diwedd Chwefror 2008, er mwyn i'r Rheoliadau ddod i rym ar 12 Mai 2008 yn unol â'r bwriad gwreiddiol.